OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 716 (Cy.75)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg (Sefydlu) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg, ymddiriedolaeth GIG y darperir ar ei chyfer yn adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hefyd yn darparu ar gyfer swyddogaethau'r ymddiriedolaeth (erthygl 3) a nifer y cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol (erthygl 4). Mae'n pennu dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifyddu yr ymddiriedolaeth (erthygl 5).

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 716 (W.75)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust (Establishment) Order 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order establishes the Abertawe Bro Morgannwg National Health Service Trust, an NHS trust provided for in section 18 of the National Health Service (Wales) Act 2006. It also provides for the functions of the trust (article 3) and the number of executive and non-executive directors (article 4). It specifies the operational date and accounting date of the trust (article 5).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 716 (Cy.75)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg (Sefydlu) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym* | *12 Mawrth 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 18(1) a (2) a pharagraffau 5 a 7 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**1**) ac adran 25 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodwyd o dan adran 18(3) o'r Ddeddf honno ac Atodlen 3 iddi, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg (Sefydlu) 2008 a daw i rym ar 12 Mawrth 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

mae i "dyddiad gweithredol" yr ystyr a roddir i "*operational date*" ym mharagraff 5(5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 12 Mawrth 2008;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gwasanaethau iechyd cymunedol" ("*community health services*") yw unrhyw wasanaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei

(**1**) 2006 p.42

(**2**) 1993 p.38, Trosglwyddwyd swyddogaethau unrhyw Weinidog y Goron i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 716 (W.75)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust (Establishment) Order 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *11 March 2008* |
| *Coming into force* | *12 March 2008* |

The Welsh Ministers in exercise of powers conferred by section 18(1) and (2) of and paragraphs 5 and 7 of Schedule 3 to the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), and section 25 of the Welsh Language Act 1993(**2**), after completion of the consultation prescribed under section 18(3) of that Act, hereby make the following Order:

**Title, commencement and interpretation**

**1**.—(1) The title of this Order is the Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust (Establishment) Order 2008 and it comes into force on 12 March 2008.

(2) In this Order unless the context otherwise requires —

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the National Health Service (Wales) Act 2006;

"community health services" ("*gwasanaethau iechyd cymunedol*") means any service which the Welsh Ministers may provide under section 3(1) of or Schedule 1 to the Act;

"establishment date" ("*dyddiad sefydlu*") means 12 March 2008;

"operational date" ("*dyddiad gweithredol*") has the meaning assigned to it in paragraph 5(5) of Schedule 3 to the Act;

(**1**) 2006 c.42

(**2**) 1993 c.38, Functions of any Minister of the Crown were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2, Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999. Functions of the National Assembly for Wales are exercisable by the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

ddarparu o dan adran 3(1) o'r Ddeddf neu Atodlen 1 iddi;

ystyr "yr ymddiriedolaeth" ("*the trust*") yw Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg a sefydlir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**Sefydlu'r ymddiriedolaeth**

**2**. Sefydlir drwy hyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol o'r enw Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg neu the Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust.

**Natur a swyddogaethau'r ymddiriedolaeth**

**3**.—(1) Sefydlir yr ymddiriedolaeth at y dibenion a bennir yn adran 18(1) o'r Ddeddf.

(2) Swyddogaethau'r ymddiriedolaeth fydd—

(a) darparu nwyddau a gwasanaethau (gan gynnwys lle mewn ysbyty a gwasanaethau iechyd cymunedol) o—

(i) Ysbyty Cefn Coed, Ffordd Waunarlwydd, Y Cocyd, Abertawe, SA2 0GH,

(ii) Ysbyty Glanrhyd, Heol Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4LN

(iii) Ysbyty Treforys, Treforys, Abertawe, SA6 6NL;

(iv) Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, Ffordd Baglan, Port Talbot, SA12 7BX,

(v) Ysbyty Tywysoges Cymru, Ffordd Coity, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1RQ,

(vi) Ysbyty Singleton, Sgeti, Abertawe, SA2 8QA,

ac ysbytai a mangreoedd cysylltiedig; a

(b) darparu gwasanaethau caffael i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu mewn cysylltiad ag ef a chaffael nwyddau a gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

**Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth**

**4**.—(1) Bydd gan yr ymddiriedolaeth, yn ychwanegol at y cadeirydd, 7 cyfarwyddwr anweithredol a 5 cyfarwyddwr gweithredol.

(2) Gan fod rhaid ystyried fod i'r ymddiriedolaeth ymrwymiad arwyddocaol i addysgu o fewn ystyr paragraff 5(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf, mae un o'r cyfarwyddwyr anweithredol i'w benodi o Brifysgol Abertawe.

**Dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifyddu'r ymddiriedolaeth**

**5**.—(1) Dyddiad gweithredol yr ymddiriedolaeth fydd 1 Ebrill 2008.

"the trust" ("*yr ymddiriedolaeth*") means the Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust established by article 2 of this Order.

**Establishment of the trust**

**2**. There is hereby established a National Health Service trust which is called the Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust or Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg.

**Nature and functions of the trust**

**3**.—(1) The trust is established for the purposes specified in section 18(1) of the Act.

(2) The trust's functions are —

(a) to provide goods and services (including hospital accommodation and community health services) from —

(i) Cefn Coed Hospital, Waunarlwydd Road, Cockett, Swansea, SA2 0GH,

(ii) Glanrhyd Hospital, Tondu Road, Bridgend, CF31 4LN,

(iii) Morriston Hospital, Morriston, Swansea SA6 6NL,

(iv) Neath Port Talbot Hospital, Baglan Way, Port Talbot, SA12 7BX,

(v) Princess of Wales Hospital, Coity Road, Bridgend CF31 1RQ,

(vi) Singleton Hospital, Sketty, Swansea, SA2 8QA,

and associated hospitals and premises; and

(b) to provide to or in relation to the health service in Wales procurement services and to procure goods and services for the purpose of the health service in Wales.

**Directors of the Trust**

**4**.—(1) The trust has, in addition to the chairman, 7 non-executive directors and 5 executive directors.

(2) Since the trust is to be regarded as having a significant teaching commitment within the meaning of paragraph 5(3) of Schedule 3 to the Act, one of the non-executive directors is to be appointed from Swansea University.

**Operational date and accounting date of the trust**

**5**.—(1) The operational date of the trust is 1 April 2008.

(2) Dyddiad cyfrifyddu'r ymddiriedolaeth fydd 31 Mawrth.

**Swyddogaethau cyfyngedig cyn y dyddiad gweithredol**

**6**. Rhwng dyddiad ei sefydlu a'i dyddiad gweithredol, mae i'r ymddiriedolaeth y swyddogaethau canlynol-

(a) ymrwymo i gontractau'r GIG;

(b) ymrwymo i gontractau eraill gan gynnwys contractau cyflogaeth; ac

(c) gwneud y pethau eraill hynny sy'n rhesymol angenrheidiol i'w galluogi i ddechrau gweithredu'n foddhaol o'r dyddiad gweithredol ymlaen.

(2) The accounting date of the trust is 31 March .

**Limited functions before operational date**

**6**. Between its establishment date and its operational date the trust has the functions-

(a) of entering into NHS contracts;

(b) of entering into other contracts including contracts of employment; and

(c) of doing such other things as are reasonably necessary to enable it to begin to operate satisfactorily with effect from its operational date.

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Mawrth 2008

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

11 March 2008

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W280/03/08 ON